Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Menter a Busnes

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd

Dyddiad:
Dydd Mercher, 23 Hydref 2013

Amser:
09:00

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Policy: Siân Phipps**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8582
Pwllygor.Menter@cymru.gov.uk

## Agenda

**Rhag-gyfarfod (9:00-9:15)**

**CYFARFOD CYHOEDDUS FFURFIOL (09.15)**

### 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2 Ymchwiliad i Ddyfodol Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau (9:15-10:15) (drwy gyswllt fideo)

Grŵp Rheilffyrdd Cyffredinol, yr Adran Drafnidiaeth

Tystion:
**Rowan Smith**, Rheolwr Masnachol y De a'r Gorllewin
**David Sexton**, Rheolwr Datblygu HLOS
**Brian Freemantle**, Pennaeth Polisi a Chytundebau Cerbydau
**Sarah Collins**, Pennaeth yr Uned Caffael Masnachfraint

**Egwyl (10:15-10:30)**

## 3 Ymchwiliad i Ddyfodol Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau (10:30-11:30) (Tudalennau 1 - 2)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Tystion:

- Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
- James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Dogfennau ategol:
EBC(4)-39-13(p1) - Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

**EGWYL (11:30-11:35)**

## 4 Ymchwiliad i Ddyfodol Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau (drwy gyswllt fideo)(11:35-12:15)

Transport Scotland

Tystion:

- Frazer Henderson, Pennaeth Polisi Rheilffyrdd Transport Scotland

## 5 Papurau i'w nodi (Tudalennau 3 - 6)

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: Ôl-drafodaeth a thrafod yr adroddiadau drafft ar y Gyllideb

## 7 Ôl-drafodaeth a thrafod yr adroddiadau drafft ar y Gyllideb (12:15-12:30)

**TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG I BWYLLGOR MENTER A BUSNES CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU AM DDYFODOL MASNACHFRAINT RHEILFFYRDD TEITHWYR CYMRU A'R GORORAU**

**Cyflwyniad**

1. Mae'r rheilffordd yn cynnig dull cysylltedd pwysig i wasanaethu anghenion busnesau, pobl a chymunedau ac mae'n cludo teithwyr a nwyddau.

2. Mae ar Lywodraeth Cymru eisiau system reilffordd fodern, hygyrch a fforddiadwy sy'n gwasanaethu pobl Cymru. Nid yw'r cyfrifoldeb dros wasanaethau rheilffordd a seilwaith y rheilffordd wedi'i ddatganoli ond mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â rôl gynyddol yn y maes hwn.

**Masnachfraint Cymru a'r Gororau ar hyn o bryd**

3. Dyfarnwyd masnachfraint Cymru a'r Gororau i Drenau Arriva Cymru yn 2003 gan yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol am gyfnod o 15 mlynedd. Mae'r fasnachfraint yn nodi'r gwasanaethau a'r safonau gwasanaethau y mae disgwyl i Drenau Arriva Cymru eu cyflawni.

4. Telir yn rhannol am weithredu'r fasnachfraint gan incwm y mae'r cwmni'n ei gynhyrchu ac yn rhannol gan gymhorthdal sylweddol gan y llywodraeth. Yn 2012/13, tua £290m oedd cyfanswm yr incwm ar gyfer y fasnachfraint, y mae dros ei hanner yn dod o gymhorthdal Llywodraeth Cymru.

5. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gyfrifol am reoli masnachfraint Trenau Arriva Cymru, drwy Gytundeb Ar y Cyd ag Adran Drafnidiaeth y DU, ers 2006.

6. Trosglwyddodd Llywodraeth y DU yr arian ar gyfer masnachfraint Trenau Arriva Cymru i Lywodraeth Cymru yn 2006/7 ar lefel a oedd yn ddigon i dalu am waelodlin y fasnachfraint. Nid oedd hyn yn darparu ar gyfer y cynnydd mewn galw a gafwyd ar rwydwaith Cymru, lle mae'r Llywodraeth o ganlyniad wedi rhoi arian er mwyn pontio'r bwlch rhwng y capasiti a roddwyd inni yn y fasnachfraint a'r capasiti sydd ei angen ar gwsmeriaid.

7. Bu ehangu arwyddocaol o ran capasiti'r gwasanaeth a niferoedd y teithwyr yn ardal masnachfraint Cymru a'r Gororau ers 2003. Rhwng 2003-04 a 2012-13 cynyddodd y 'cilometrau trên' ar gyfer gwasanaethau a ddarparwyd gan Drenau Arriva Cymru 31 y cant, gan gynnwys gwasanaethau ar y llinellau wedi'u hailagor a noddwyd gan Lywodraeth Cymru; er enghraifft i Barcffordd Glynebwy, a rheilffordd Bro Morgannwg. Dros yr un cyfnod cynyddodd nifer 'teithiau'r teithwyr' ar y gwasanaethau hyn 61 y cant. Ar ddangosyddion perfformiad allweddol, mae'r perfformiad wedi cynyddu dros yr un cyfnod. Yn gyntaf am fodlonrwydd cwsmeriaid, o ran y teithwyr yr oedd eu barn gyffredinol am eu taith yn 'fodlon neu'n dda'; cododd y mesur hwn o 79 y cant o'r teithwyr yng ngwanwyn 2004 i 88 y cant yng ngwanwyn 2013. Ac yn ail, 'mesur perfformiad cyhoeddus' prydlondeb (y trên yn cyrraedd cyn pen 5 munud i'r amser ar yr amserlen) a gododd o 81.8 y cant yn 2003-04 i gyrraedd 95.4 y cant yn ystod chwarter cyntaf 2013-14.

**Dyfodol masnachfraint Cymru a'r Gororau**

8. Mae masnachfraint bresennol Cymru a’r Gororau’n dod i ben ym mis Hydref 2018. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, yr Adran Drafnidiaeth fydd yr awdurdod breinio o hyd ar gyfer masnachfraint Cymru a’r Gororau a hi sy’n gyfrifol am osod y fasnachfraint nesaf. Cydnabyddir diddordeb Gweinidogion Cymru yn y fasnachfraint yn y ddeddfwriaeth ac mae’r Ddeddf Rheilffyrdd (2005) yn darparu i’r perwyl hwnnw.

9. Mae’r fasnachfraint newydd yn cynnig cyfle i lunio manyleb sy’n adlewyrchu’r patrwm defnydd sydd wedi datblygu a’r sail i wella cystadleurwydd economaidd Cymru.

10. Fel y nodwyd yn ein tystiolaeth i Gomisiwn Silk, mae trafodaethau ynghylch posibilrwydd datganoli grymoedd pellach o ran y rheilffyrdd a’r setliad ariannol priodol wedi dechrau â’r Adran Drafnidiaeth. I gyd-fynd â hynny rwyf wedi cyfarwyddo fy swyddogion i archwilio pob opsiwn ar gyfer model y fasnachfraint y gellid ei fabwysiadu.

11. Beth bynnag fydd maint ein rôl wrth osod masnachfraint nesaf Cymru a’r Gororau, bydd Llywodraeth Cymru’n nodi ei blaenoriaethau ar gyfer y fasnachfraint nesaf gan gynnwys disgwyliadau gwasanaethau a’r safonau ansawdd a model y fasnachfraint rydyn ni eisiau iddi gael ei chyflawni. Fodd bynnag, mae’n bwysig alinio hyn gyda setliad cyllid priodol gan Lywodraeth y DU.

12. Mae ymchwiliad y Pwyllgor yn dod ar adeg allweddol ac rwy’n awyddus i sicrhau bod y gwersi a dynnwch o’r dystiolaeth a gasglwch yn llywio ein dull gweithredu yn y dyfodol.

**Edwina Hart MBE CStJ AC**
**Y Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**

# Y Pwyllgor Menter a Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 17 Hydref 2013** |
| Amser: | 13: - 14:30 |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
[http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400001_17_10_2013&t=0&l=cy](http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400001_17_10_2013&t=0&l=cy)

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay (Cadeirydd)<br>Mick Antoniw<br>Byron Davies<br>Keith Davies<br>Alun Ffred Jones<br>Eluned Parrott<br>Joyce Watson |
| Tystion: | Huw Lewis, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau<br>Ken Skates, Ddiprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg<br>Andrew Clark, Dirprwy Gyfarwyddwr, Addysg Bellach a Phrentisiaethau, Llywodraeth Cymru<br>Owen Evans, Cyfarwyddwr, Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cymru<br>Neil Surman, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Olga Lewis (Clerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Anne Thomas (Ymchwilydd)<br>Christopher Warner (Secretary) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Julie James AC, Rhun ap Iorwerth AC a David Rees AC. Nid oedd unrhyw ddirprwyon.

## 2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15: Addysg Uwch a Sgiliau (13.30-14.30)

1.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis AC, a'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, Ken Skates AC.

2.2 Cytunodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau i roi gwybodaeth am y dadansoddiad o'r arbedion a wnaed o ganlyniad i uno sefydliadau Addysg Uwch dros y 10 mlynedd diwethaf.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol.

# Enterprise and Business Committee

| | |
|---|---|
| Meeting Venue: | Committee Room 3 – Senedd |
| Meeting date: | Wednesday, 9 October 2013 |
| Meeting time: | 09:00 – 12:08 |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

This meeting can be viewed on Senedd TV at:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_400000_09_10_2013&t=0&l=en

## Concise Minutes:

| | |
|---|---|
| Assembly Members: | Nick Ramsay (Chair)<br>Byron Davies<br>Keith Davies<br>Rhun ap Iorwerth<br>Alun Ffred Jones<br>Eluned Parrott<br>Joyce Watson |
| Witnesses: | Neil Buxton, Association of Community Rail Partnerships (ACoRP)<br>Professor Stuart Cole, Wales Transport Research Centre, University of Glamorgan Business School<br>Keith Howard, Porterbrook<br>Kevin Tribley, Angel Trains |
| Committee Staff: | Siân Phipps (Clerk)<br>Olga Lewis (Deputy Clerk)<br>Andrew Minnis (Researcher) |

### 1 Inquiry into Youth Entrepreneurship: Consideration of the Draft Report

1.1 The Committee considered this item in private session.

## 2 Introductions, apologies and substitutions (10.00)

2.2 Apologies were received from Mick Antoniw AM, Julie James AM and David Rees AM. There were no substitutions.

## 3 Inquiry into the Future of the Wales and Borders Rail Franchise (panel evidence session) (10.00-11.00)

3.1 The Committee took evidence from the representatives of Rolling Stock Companies - Angel Trains and Porterbrook Leasing Company Limited

## 4 Inquiry into the Future of the Wales and Borders Rail Franchise (panel evidence session) (11.15-12.00)

4.1 The Committee took evidence from Neil Buxton, General Manager, Association of Community Rail Partnerships and Professor Emeritus Stuart Cole, Wales Transport Research Centre, University of South Wales

## 5 Papers to note

5.1 The Committee noted the Minutes of the previous meeting (3 October 2013)